

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Ceridwen Evans (Llansannan) a Gwenda Davies (Tanyfron) yn dilyn marwolaeth eu chwaer, Miriam. Cyflwynwn hwy, a gweddill y teulu, i ofal a thangnefedd Duw.
- Anfonwn ein cofion at Trefor Jones (Nantglyn) sydd wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyd yr wythnos, a chofiw'n hefyd am Bethan Harrison (Nantglyn) sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Abergele yn ystod y dyddiau diwethaf. Deallwn hefyd fod Hefina Thomas (Llanfair) wedi cael anffawd ac wedi torri ei braich. Hyderwn y bydd y tri ohonynt yn gwella'n fuan, ac y byddant yn profi o ddaioni yr Arglwydd y dyddiau hyn. Parhawn i gofio hefyd am Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno, a gweddiwn ar i Dduw ei amgylchynu yntau gyda thrugaredd a daioni.
- Estynnwn ein dymuniadau gorau i Gwyn Williams (Llanefydd) a Kathryn Gardner fydd yn priodi dydd Sadwrn nesaf. Gweddiwn y byddant yn cael diwrnod cofiadwy, a bendithion lu i'r dyfodol.
- Llongyfarchiadau i Eiddwen Jones (Llansannan) ac Esmor ar eu dyweddiad, ac i Elin Davies (Tanyfron) a Rich ar eu dyweddiad hwythau. Yr ydym yn dymuno yn dda i'r ddau gwpl, ac yn gweddiu bendith Duw ar eu perthynas.

I ddod

- **CYMDEITHASFA'R GWANWYN** Bydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn cyfarfod yn Llansannan ar Mai 6ed a'r 7fed ac fe fydd **cyfarfod cyhoeddus ar y Nos Fawrth**. Mwy o fanylion yr wythnos nesaf.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Hyfrydle, Betws yn Rhos dydd Gwener, Mai 9fed. Pwyllgor Gwaith am 3.00, Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, a **Chyfarfod Cyhoeddus am 6.00 i Wobrwyo Plant ac Oedolion yr Ysgol Sul**.
- **OEDFA ARBENNIG I'R FRO** nos Sul, Mai 11eg yn Llansannan am 6.00 pryd y bydd y Parch. Rhun Murphy pregethu.
- **UNDEB ATHROFA'R BALA** – Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Seilo, Llandudno dydd Mawrth, Mai 13eg am 10.00. Y siaradwr fydd y Parch. Ddr. Noel Davies, Abertawe. Croeso i bawb.
- **DIWRNOD DYNION** yn y Bala ar Mehefin 7fed. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565.
- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mehefin 13eg-14eg. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru (*manylion uchod*).

Darlleniad Wythnos Nesaf

Salm 150 (BCND tud.575 / BCN: tud.526)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 27^{ain} Ebrill 2014

Darlleniad y Dydd

Luc 24:28-35

(BCND tud.98 / BCN: tud.90)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

'Yr amcan ym mhob dim yw gogoneddu Duw trwy Iesu Grist. Iddo ef y perthyn y gogoniant a'r gallu byth bythoedd. Amen.' (1 Pedr 4:11) Dyma sut y mae Pedr yn cymell Cristnogion yn ei lythyr i roi eu bywydau mewn mawl a gwasanaeth i Dduw, ac ar Sul arall wrth i ni addoli gyda'n gilydd, dylem ninnau ymateb i'w anogaeth trwy roi pob clod i'r Duw gogoneddus gododd yr Arglwydd Iesu'n fyw yn fuddugoliaethus.

Bu'r wythnos ddiwethaf yn un hynod i nifer o'n cyfeillion yma ym Mro Aled, ac i nifer ohonom ninnau hefyd. Ddydd Sadwrn (27ain) bydd Derek Rees yn priodi Alaw, a gweddiwn am fendith yr Arglwydd ar eu priodas a'u gweinidogaeth gyda'i gilydd. Bydd gan lawer ohonoch atgofion difyr am gyfnod Derek yn hyfforddi yn yr ardal, a diolchwn i'r Arglwydd amdano ef ac Alaw gan obeithio y byddant yn mwynhau diwrnod ac na fydd cyw iâr yn agos at wledd y briodas!

Hefyd wrth gwrs, cynhaliwyd Gŵyl Llanw yn Ninbych y Pysgod a bu'n wythnos eithriadol o fendithiol gydag Aneurin a Meirion ymhlith eraill yn pregethu. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn clywed ychydig o'r hanesion, dewch i oedfa'r fro nos Sul! Yn ystod Llanw cawsom gyfle i rannu ychydig o CDs Emynau Mawl Bro Aled, a daeth llawer un ataf yn llawn gwerthfawrogiad ac wedi cael blas ar foli'r Arglwydd wrth wrando yn y car. Cofiwch ofyn os ydych am dderbyn CD, a rhyfeddwch at fawredd Iesu Grist lle bynnag y byddwch yn gwranddo arno!

Yn ein darlleniad ar y cyd heddiw, mae'r disgyblion yn llawn cynnwrf am iddynt adnabod Iesu atgyfodedig wrth iddo dorri'r bara. Roeddynt wedi bod yn ei gwmi ac wedi mwynhau'n fawr cael gwranddo arno'n egluro'r Beibl iddynt, ond mae'n amlwg mai'r uchafbwynt oedd pan adnabasant Iesu. Yn syth wedi i hyn ddigwydd, mae Iesu'n diflannu o'u golwg a hwythau'n cael mynd i rannu'r newyddion da gyda'r disgyblion eraill. Yn y foment hon, agorwyd eu llygaid iddynt allu adnabod Iesu. Dyna'n dyhead ninnau yn ein holl oedfaon heddiw hefyd. Nid casglu gwybodaeth am gymeriad hanesyddol a wnawn wrth wrando ar Air Duw yn cael ei bregethu, yn hytrach rydym am ddod i adnabod Iesu Grist yn bersonol a phrofi Ei ras, Ei gariad a'i faddeuant drosom ein hunain. Dyma'r Arglwydd fu farw ar y groes i goncro pechod, ac a drechodd hyd yn oed farwolaeth ar y trydydd dydd fel y gall pawb sy'n eiddo iddo edrych ymlaen gyda hyder oherwydd addewid Duw at eu hatgyfodiad hwythau i gyrff gogoneddus yn y nef newydd a'r ddaear newydd, lle mae cyfiawnder yn cartrefu. (2 Pedr 3:13) Ydym ni'n adnabod Iesu, ac ydym ni'n barod i ildio'n hunain Iddo er mwyn derbyn bywyd yn ei gyflawnder trwyddo Ef? Gweddiwn ar i'r Ysbryd Glân ein dwysbigo a'n cyfeirio ni at yr Iesu bendigedig yn ein hoedfaon, a thrwy'r wythnos sydd i ddod.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Sasiwn Chwirydd Y Gogledd** yng Nghapel Ebeneser, Dolgellau LL40 1LN. Yng nghyfarfod y prynhawn am 2.00, bydd Anna Jane Evans (Cymorth Cristnogol) yn annerch, ac yna yng nghyfarfod yr hwyr am 5.30, ceir anerchiad gan Beryl Vaughan, Llanerfyl. Mae gan ysgrifennydd eich eglwys (neu Mair) fwy o gyfarwyddiadau ynglŷn â pharcio a chyfleusterau bwyd ond fe ddarperir paned o de yn Festri Capel Ebeneser wedi oedfa'r prynhawn. Croeso cynnes i bawb.
- Iau • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn Festri Capel Tegid, Y Bala. (Paned am 10.00, y darlithoedd o 10.30 – 4.00.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac Ysgol Sul oedolion Saron yn dilyn oedfa'r prynhawn.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 10.00 a bydd Isac Hedd, mab bach Glesni a Gavin, a hefyd Noa Henri, mab bach Buddug a Llion yn cael eu bedyddio yn ystod yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul i'r plant.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.